



# 2023–2024

## Adroddiad Sefydliadol #18

**Y cyfnod dan sylw: 1 Gorffennaf – 30 Medi 2023**

Lluniau: Bardd Plant Cymru 2023-25, Nia Morais a Children's Laureate Wales 2023-25, Alex Wharton (Credyd llun: Mefus Photography)

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

# Cynnwys


Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Chipolygon

- Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol 3
- Uchafbwyntiau chwarter 2 4
- Ein lle yn y sector 5

Ein heffaith:

- Uchafbwynt wrth gyflawni nod: Cyfranogi 6

Cynnydd yn erbyn ein targedau

- Cyngor Celfyddydau 2023-24 8
- Codi arian 15
- Targedau Gweihredol 16
- Uchafbwyntiau a diweddariadau Polisi 18

Gwersi I'w Dysgu

- Gweithgaredd a Gweithredol 19


## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido CCC** a'n **gofynion adrodd mewnol** sy'n manylu ar yr effaith y gobeithiwn ei chael, ynghyd â'n **Gwersi i'w Dysgu.**

Dim ond cipolwg o'r gwaith yr ydym yn ei gyflawni y mae targedau Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei gynnig. Mae gennym yn ogystal broses Monitro Effaith drylwyr sy'n dangos sut mae ein holl raglenni'n cyfrannu at ein 7 Nod. Ym mhob Adroddiad fel yr un yma, byddwn yn amlygu un nod ar gyfer y chwarter ac yn adrodd yn fanylach ar yr ystadegau a'r straeon yr ydym wedi'u casglu.

Mae gennym hefyd ystod eang o dargedau gweithredol ar gyfer 2022-25. Ynghlwm wrth ein cynllun strategol mae llawer o gynlluniau gweithredol yn cynnwys Codi Arian, Adnoddau Dynol, Partneriaethau a Chymynroddion, Cynaladwyedd, Cyllid, EDI a Chyfathrebu. O fewn y rhain mae nodau SMART ar gyfer pob blwyddyn. Rydym yn mesur ein cynnydd yn erbyn y rhain yn chwarterol ac ym mhob Adroddiad Sefydliadol bydd trosolwg o'r cynnydd allweddol a wnaed / terfynau amser a gollwyd yn y chwarter.

# Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Gweithredol

Rwy'n ysgrifennu hyn o eiriau yn syth ar ôl i ni glywed y newyddion am Adolygiad Buddsoddi Cyngor Celfyddydau Cymru, sydd wedi cynnig cyllid digyfnewid i ni am y tair blynedd nesaf. Er bod hyn yn golygu toriad mewn termau real, o ystyried yr hinsawdd economaidd ar hyn o bryd, rydyn ni'n fodlon â'r canlyniad hwn. Mae'n golygu y bydd modd i ni barhau i roi cyfleoedd gwych i awduron ledled Cymru. Mae'n dangos bod gan Gyngor Celfyddydau Cymru ffydd ynon ni, ac mae'r sylwadau a gawson ni am y cais yn dangos yr hyn rydyn ni wedi llwyddo i'w gyflawni fel sefydliad:

"*Mae Llenyddiaeth Cymru wedi cyflwyno cais cryf sy'n dangos uchelgais trawsbynciol a chysylltiol i gyflawni ei weledigaeth o Gymru ddiwylliannol, fywiog a chyfartal. Mae ei rhaglen arfaethedig a'i chynllun busnes yn cyfleu sawl maes prosiect rhyng-gysylltiedig sy'n cyd-blethu i gefnogi ei ddull a'i photensial i gyflawni canlyniadau blaenoriaeth ar gyfer cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a chreu rhagor o fynediad at gyfleoedd i awduron a chyfranogwyr, gyda'r Gymraeg yn sylfaen i'r gwaith.*

*Y peth mwyaf trawiadol yw ei hymrwymiad agored a gonest i'w thaith ddysgu sy'n awyddus i ddeall, grymuso ac adlewyrchu'r cymunedau y mae'n ceisio eu gwasanaethu."*

Rydyn ni'n edrych ymlaen at ddatblygu ein cynlluniau dros y tair blynedd nesaf drwy'r sefydlogrwydd y mae'r penderfyniad hwn wedi'i roi i ni.

Serch hynny, dydyn ni ddim wedi bod yn cicio ein sodlau am y tri mis diwethaf wrth aros am y canlyniad hwn. Unwaith eto, fe roddodd yr haf ddigonedd o gyfleoedd i ni rannu ein gwaith a'n neges â'r cyhoedd. Mae Alex Wharton, ein Children's Laureate newydd, wedi cael ei weld ar gloriau cylchgronau o bob math, fel Buzz a'r Western Mail. Fe ymddangosodd ar BBC Breakfast wythnos diwethaf, hyd yn oed. Mae ein Bardd Cenedlaethol wedi teithio i Frwsel gyda Llywodraeth Cymru ac wedi rhannu comisiwn newydd fel rhan o ddathliadau yn y Senedd i nodi 75 mlynedd ers sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Roedd gennyn ni bresenoldeb amlwg yn yr Eisteddfod ym Moduan, lle bu Iestyn Tyne yn curadu wythnos o ddigwyddiadau a edrychai ar hyd a lled ysgrifennu newydd yn Gymraeg, lle rhannwyd ein prosiect Gair Mewn Gwlân, a lle cafodd ein staff gyfle i gwrdd â chydweithwyr o bob rhan o'r sector. Ac allwn ni ddim anghofio Gwobr Llyfr y Flwyddyn, a gafodd sylw gwych yn y wasg ac a roddodd gyfle ardderchog i ddatblygu ein cysylltiadau yn y sector cyhoeddi.

Yr haf hwn, rydyn ni hefyd wedi bod yn derbyn ceisiadau i bedwaredd rownd cynllun Cynrychioli Cymru. Rydyn ni hefyd yn dechrau gweld ffrwyth ein llafur wrth weld llwyddiant awduron a fu'n rhan o rowndiau blaenorol. Yn eu plith mae Hanan, Nia ac Alex, sydd wedi'u penodi i swyddi beirdd cenedlaethol, tra bo Taz Rahman, Anthony Shapland a sawl un arall wedi cyhoeddi am y tro cyntaf. Dros y ddwy flynedd nesaf, ein bwriad yw gwerthuso'n llawnach effaith hirdymor y rhaglen, a sut y gallen ni/sut y dylen ni gefnogi'r awduron hyn yng nghamau nesaf eu gyrfaoedd. Rhaid i effaith y rhaglen fod yn glir i awduron y dyfodol, gan i ni gael mwy o geisiadau nag erioed eleni – dros 100 yn braf.

Rwy'n hynod o falch o'r ffordd y mae'r tîm wedi cyd-dynnu a chydweithio i ddarparu'r rhaglenni hyn dros yr haf, yn enwedig yn absenoldeb Leusa. Yn niwrnod Cwrdd i Ffwrdd y tîm fis Medi, roedd hi'n amlwg bod pob aelod o'r tîm yn frwd dros ein gwaith, a chyfrannodd pawb yn graff at y trafodaethau strategol. Y nhw yw ased mwyaf Llenyddiaeth Cymru. Er gwaethaf yr heriau ariannu, rwy'n gwybod y byddan nhw'n sicrhau ein bod ni'n cyflawni ein gweledigaeth mewn ffordd gwbl benigamp.

Claire Furlong, Cyfarwyddwr Gweithredol




Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

# Uchafbwyntiau

## Gweithgareddau

- Cefnogodd staff Llenyddiaeth Cymru amrywiaeth o ddigwyddiadau yn yr Eisteddfod ym Moduan, gan gynnwys cyfres o drafodaethau hanner awr ar lwyfan y Babell Lên ac arddangosfeydd gan ysgolion bob prynhawn fel rhan o gynllun Gair Mewn Gwlân.
- Yn Chwarter 2, cyhoeddodd Llenyddiaeth Cymru broses ymgeisio newydd, gyflymach ar gyfer ein Cronfa Ysbrydoli Cymunedau. Mae'r newidiadau'n cynnwys dwy ffurflen ar wahân ar gyfer gweithgareddau i blant a phobl ifanc a gweithgareddau i oedolion. Hefyd, bydd y gweithgareddau bellach yn digwydd o fewn dau fis yn hytrach na thri.
- Agorodd y broses ymgeisio i bedwaredd rownd ein rhaglen ddatblygu broffesiynol, Cynrychioli Cymru, a hynny i awduron sy'n datblygu gweithiau newydd i oedolion.
- Dathlodd grŵp presennol o awduron Cynrychioli Cymru drwy gyhoeddi enwau eu mentoriaid, ac roedd Llenyddiaeth Cymru yn falch o gyhoeddi digwyddiad am ddim i'r cyhoedd fel rhan o'r rhaglen i drafod grym y genre ffeithiol greadigol wrth drafod yr argyfwng hinsawdd gyda phlant.
- Cyhoeddwyd cwrs newydd o'r enw Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad mewn partneriaeth â Celfyddydau Anabledd Cymru, gan wahodd ceisiadau gan artistiaid Byddar a/neu Anabl i ymuno â chwrs ysgrifennu creadigol rhithwir gyda Kaite O'Reilly.
- Bu Hanan Issa, ein Bardd Cenedlaethol, yn cynrychioli Cymru ar y llwyfan Ewropeaidd ym Mrwsel, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.



Bardd Cenedlaethol Cymru yn nodi 75 mlynedd ers sefydlu'r GIG




Llŷr Titus a Caryl Lewis yn cipio Prif Wobrau Llyfr y Flwyddyn 2023




Dathlu Barddoniaeth yn y Senedd gyda'r Children Laureate Wales, Connor Allen



Chwe hwylusydd llenyddol ar fin dechrau rhaglen ddatblygu dwys dros y 12 mis nesaf



Llyfr y Flwyddyn 2024 – Agor i Geisiadau




Duke al Durham yn cnoi cil am ei gyfnod preswyl 6 mis yn Ysgol Uwchradd Bassaleg fel rhan o brosiect Darn-Wrth-Ddarn.

## Gweithrediadau

- Fis Medi, ar ôl proses gystadleuol i ymgeisio am grantiau, cafodd Llenyddiaeth Cymru gynnig amodol o gyllid aml-flwyddyn gwerth £753,306 gan Gyngor Celfyddydau Cymru.
- Yn ystod y chwarter hwn, trefnwyd Diwrnodau Cynllunio Creadigol yn Nhŷ Newydd i'r staff. Roedd hynny'n cynnwys tair sesiwn i drafod gwahanol agweddau ar strategaeth Llenyddiaeth Cymru.
- Fel rhan o'r Rhestr o Gyflenwyr a Ffefrir, rhoddwyd gwahoddiad i unigolion llawrydd a chwmnïau i wneud cais i gael eu cynnwys ar y rhestr.
- Yn ystod cyfarfodydd staff, parhaodd y staff i rannu cyflwyniadau sy'n dangos effaith prosiectau. Yn ystod y chwarter hwn, cafwyd cyflwyniadau am Adnoddau i Awduron, Darn-Wrth-Ddarn, a gwaith y beirdd cenedlaethol (Bardd Plant Cymru, y Children's Laureate Wales, a Bardd Cenedlaethol Cymru).
- Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf Bwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru ddiwedd mis Awst. Rhoddwyd cyflwyniad creadigol i'r ymddiriedolwyr am y prosiect Llên mewn Lle, yn ogystal ag adroddiadau am faterion gweithredol a chyllid, a chynnig i leihau'r cronfeydd wrth gefn sy'n rhydd.
- Cwblhawyd gwaith adnewyddu ar y Tŷ Haul yn Nhŷ Newydd. Mae hwnnw bellach yn dal dŵr, ac mae'r ffrâm bren wedi'i hatgyweirio ar ôl iddi bydru. Mae angen mân waith addurno i gau pen y mwdwl, a bydd hynny'n cael ei wneud gan y tîm dros y gaeaf yn ystod cyfnodau pan nad oes gwesteion yn Nhŷ Newydd.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Ein lle yn y Sector

Mae bron i bob aelod o dîm Llenyddiaeth Cymru wedi bod yn rhan o weithgareddau sy'n rhoi cymorth i'r sector yn ystod y chwarter hwn. Mae cyfanswm yr oriau sydd wedi'u cofnodi bellach ymhell dros 300, ac rwy'n credu bod y tîm yn neilltuo llawer mwy o oriau'n anffurfiol hefyd, drwy fynd i ddigwyddiadau a thrwy gael sgyrsiau hir â'r awduron sy'n dod i Dŷ Newydd. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn ni'n gweithio i fireinio'r system rydyn ni'n ei defnyddio i gofnodi'r cymorth hwn, er mwyn dangos yn well werth ein staff.

Mae nifer o aelodau'r tîm wedi bod hwnt ac yma yn cynrychioli Llenyddiaeth Cymru dros yr haf, gan ymweld â'r Eisteddfod, gwyliau llenyddol, a'n digwyddiadau ein hunain yn y Senedd ac fel rhan o Wobr Llyfr y Flwyddyn. Nid yw rhwydweithio yn ail natur i bawb, ond roeddwn i'n hynod o falch ar ddiwedd seremoni Gwobr Llyfr y Flwyddyn o weld y rhan fwyaf o'r staff yn sgwrsio'n braf ag awduron a chyhoeddwyr – gan fod yn llysgenhadon rhagorol i'n gwaith.

Yn gynharach eleni, fe wnes i gefnogi Cyngor Llyfrau Cymru fel un o'r panelwyr a fu'n asesu ceisiadau i'r Gronfa Cynulleidfaoedd Newydd. Cafodd nifer o'r sefydliadau sy'n cael arian eu hannog i drafod eu prosiectau â ni, er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael effaith. Er enghraifft, mae Miriam Sautin wedi bod yn gweithio gyda'r Ffermwyr Ifanc i'w helpu i greu cynllun mentora i awduron y dyfodol. Mae hi wedi trefnu y bydd Bethan Gwanas a Caryl Lewis yn helpu'r awduron ifanc i ysgrifennu am eu profiadau yng nghefn gwlad. Mae Emily wedi bod yn cefnogi Inclusive Journalism Cymru ers misoedd lawer gyda'u prosiect Cymru & I. Yn anffodus, chawson nhw ddim cyllid yn rownd 2, ond rydyn ni wedi parhau i'w cefnogi yn eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac yn lansiad eu llyfr, yn ogystal â thrwy gynnig cymorth i godi arian yn y dyfodMiriamol.

Mae Williams wedi bod yn sicrhau bod gan Llenyddiaeth Cymru gysylltiadau â'r gymuned leol yn Llanystumdwy. Mae hi wedi treulio amser yn cyfrannu at rwydwaith newydd Cymunedoli Cyf ac yn cynghori'r cwmni drama lleol, yn ogystal â rhoi gofod i'r ysgol leol.


Cyfarwyddwr Gweithredol gydag enillwyr a beirniaid Saesneg


Prif enillwyr Llŷr Titus a Caryl Lewis


Cyfarwyddwr Gweithredol gydag enillwyr a beirniaid Cymraeg
Credyd lluniau: Celf Calon/ Llenyddiaeth Cymru

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales



## Uchafbwynt wrth gyflawni nod: **Cyfranogi**

Galluogi mwy o bobl yng Nghymru i fwynhau a chymryd rhan mewn llenyddiaeth, gan ysbrydoli cymunedau a'i gwneud hi'n haws i bobl ymwneud â'n gwaith

**Sgwennu'n Well** yw rhaglen ddatblygu newydd Llenyddiaeth Cymru ar gyfer hwyluswyr llenyddol yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a gwybodaeth hwyluswyr llenyddol yn benodol yn maes Iechyd a Llesiant. Rhaglen ddatblygu broffesiynol, ddwys, blwyddyn o hyd yw hon, gyda chymorth ôl-ofal i grŵp o hwyluswyr rhwng dechrau a chanol eu gyrfaoedd. Mae'n cynnwys sesiynau mentora, ysgoloriaeth gwerth £2,000, cyfres o bum sesiwn hyfforddi ar-lein, cwrs preswyl yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, a rhagor.

Yn Chwarter 2, cafodd panel annibynnol gyfarfod i adolygu 50 o geisiadau. Daeth ceisiadau i law o wyth o ranbarthau Cymru, gyda'r ymgeiswyr yn cynnig amrywiaeth o brosiectau iechyd a llesiant sy'n rhoi sylw i bynciau fel unigrwydd ar ôl COVID-19, niwroamrywiaeth, a chrwydro yn yr awyr agored gyda phlant a phobl ifanc.

Roedd chwe hwylusydd yn llwyddiannus, a'r rhieni'n cwrdd am y tro cyntaf mewn sesiwn ar-lein gyda staff Llenyddiaeth Cymru fis Medi. Bydd yr hwyluswyr yn cwrdd wyneb yn wyneb am y tro cyntaf yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd fis Hydref 2023, a hynny ar gwrs ysgrifennu er llesiant yng ngofal clare e potter a Jill Teague.

### Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

Yn Chwarter 2, cynhaliwyd 13 o gyrsiau yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, fel Sut i Ysgrifennu i Bobl Ifanc gydag Eloise Williams a Matt Brown, ac Ysgrifennu am Gariad Cwiar gydag Andrew McMillan ac Okechukwu Nzelu. Croesawodd y staff 122 o gyfranogwyr drwy ein drysau gwyrddlas, gyda 97.5% yn dweud bod aros yn Nhŷ Newydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant, a 92.5% yn dweud y bydden nhw'n dychwelyd neu y bydden nhw'n hoffi dychwelyd. Rhoddodd y cyfranogwyr adborth hefyd fel 'nid yw bodlon iawn yn dod yn agos ati' ac 'eithriadol ym mhob ffordd'. Fel bob tro, cafwyd adborth hyfryd am fwyd ein cogydd preswyl:

> **"Tony yw'r brenin! Mae'n hynod o gyfeillgar ac roedd yr holl fwyd yn fendigedig. Fe deimlwn y gallwn i fynd i'r gegin ar unrhyw adeg. Doeddwn i byth yn llwgu!"**

Cynhaliwyd dau gwrs strategol yn ystod y chwarter hwn. Fis Medi, croesawyd y rheini a wnaeth geisiadau llwyddiannus ar gyfer Nodyn ar Natur, cwrs ysgrifennu am fyd natur i fenywod o liw gyda Nasia Sarwar-Skuse.

Mewn partneriaeth â Celfyddydau Anabledd Cymru, agorwyd proses ymgeisio Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad gyda Kaite O'Reilly, gan gynnal dwy sesiwn galw-i-mewn anffurfiol gyda chynrychiolwyr y naill sefydliad a'r llall.



Penwythnos Ysgrifennu Creadigol i Ddysgwyr Cymraeg gyda'r tiwtoriaid Bethan Gwanas a Siôn Tomos Owen.

# Uchafbwynt wrth gyflawni nod: **Cyfranogi**

Galluogi mwy o bobl yng Nghymru i fwynhau a chymryd rhan mewn llenyddiaeth, gan ysbrydoli cymunedau a'i gwneud hi'n haws i bobl ymwneud â'n gwaith

## Bardd Plant Cymru a Children's Laureate Wales

Roedd Chwarter 2 yn gyfnod o newid cyffrous yn achos beirdd plant Llenyddiaeth Cymru, wrth i ni ddathlu diwedd cyfnodau Casi Wyn (Bardd Plant Cymru) a Connor Allen (Children's Laureate Wales) yn eu swyddi. Rhoddwyd sylw i'w cyfnodau llwyddiannus ar draws ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ein cylchlythyr, ar y wefan, ac mewn digwyddiad yn y Senedd.

Yn ystod ei chyfnod fel Bardd Plant Cymru, ymwelodd Casi Wyn â 65 o ysgolion drwy Gymru. Lluniodd 29 o gerddi newydd, rhai o'r rhain yn amlygu cysylltiadau â chenhedloedd eraill. Er enghraifft, cydweithiodd Casi â'r Laureate na nÓg, Áine Ní Ghlinn, a gyda chefnogaeth Cyngor Ffoaduriaid Cymru, ysgrifennodd gerdd o'r enw Annwyl Blant yr Wcráin. Ers i Casi ddechrau yn y swydd, mae gan dudalen Twitter Bardd Plant Cymru 4,008 o ddilynwyr, twf o bron i 7%.

Yn ystod ei gyfnod yntau fel y Children's Laureate Wales, mae Connor wedi cwblhau 45 diwrnod o weithdai, 21 o brosiectau partneriaeth, ac 17 o ddigwyddiadau. Ysgrifennodd gerddi comisiwn fel Yr Oes Sydd Ohoni gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru i hybu ymgyrch #GwleddyGwanwyn, a daeth â'i gyfnod i ben gyda cherdd gyhoeddus, Thank You. Yn ystod ei gyfnod, enwyd llyfrgell ar ei ôl mewn ysgol yng Nghasnewydd, ac mae wedi tynnu sylw at rym barddoniaeth mewn ysgolion.

> **"Roedd Connor yn hwyl ac yn ennyn diddordeb y plant, ac yn ateb eu cwestiynau'n fanwl. Ers hynny mae'r plant wedi holi am ei waith ac rydyn ni wedi trafod barddoniaeth yn fanwl mewn gwersi dilynol. Diolch i chi**
>
> **- Athro ysgol gynradd o daith ysgolion olaf Connor"**

Fis Medi, dechreuodd Nia Morais ei chyfnod fel Bardd Plant Cymru, a dechreuodd Alex Wharton ei gyfnod yntau fel y Children's Laureate Wales. Mae'r naill a'r llall wedi bod yn hyrwyddo llenyddiaeth a grym barddoniaeth ar amryw o sianeli ar y cyfryngau. Er enghraifft, mae Nia wedi cael sylw ar BBC Radio Cymru a'r Western Mail, tra bo Alex wedi bod yn cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol. Mae wedi ymweld â Llyfrgell Ganolog Casnewydd yng nghwmni Joseph Coehlo, Bardd Waterstone's, fel rhan o daith #LibraryMarathon Joseph, a drefnwyd gan BookTrust. Mae hefyd wedi cael sylw cadarnhaol dros ddwy dudalen yn Buzz Magazine, a helpodd i lansio cystadleuaeth #BBC500words2023 yn fyw ar BBC Breakfast.



Connor Allen, y Children's Laureate Wales, yn perfformio yn y Senedd

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod:** Yr Argyfwng Hinsawdd: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Parhau i ddarparu cynllun **Llên mewn Lle,** gan roi cyfleoedd i feirdd lleol amlwg ddatblygu gwaith yn eu cymunedau lleol, a hwnnw'n rhoi sylw i faterion sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd drwy lenyddiaeth. | Yn Chwarter 2, cwblhaodd LUMIN eu trydedd sesiwn ar y thema 'Dyfodol'. Cerddodd cyfranogwyr o amgylch Abertawe gan stopio mewn becws teuluol a sefydlwyd gan mlynedd yn ôl. Ymwelwyd hefyd â safle bioffilig newydd, a fydd yn annog pobl leol i ymwneud â byd natur. Trafodwyd y cysylltiadau rhwng trefedigaethu ac ecoleg, ac ysgrifennodd y cyfranogwyr lythyrau ganddyn nhw'u hunain yn y dyfodol am y camau y dylen nhw fod yn eu cymryd nawr. Mae LUMIN wedi bod yn casglu ymatebion creadigol, ac yn gweithio tuag at gyhoeddi'n lleol (drwy eu partner lleol, Ways of Working).<br>Yn mynd rhagddo: Mae Iola Ynyr wedi cynnal dwy sesiwn o blith 20 i gyd. Mae'r cyfranogwyr wedi cnoi cil am sut y mae'r chwyldro diwydiannol, ac yn benodol ehangu'r chwareli tir comin yn Rhosgadfan, wedi arwain at greu mwy o bellter rhwng pobl a'r tir. Mae sesiynau Iola wedi symud i hen gartref Kate Roberts yng Nghae'r Gors, gyda chymorth ychwanegol gan Gyngor Gwynedd.<br>Mae Siôn Tomos Owen wrthi'n cwblhau dyddiadur wedi'i ddarlunio, gan ddatblygu cysylltiadau â grwpiau cymunedol ehangach ar yr un pryd – fel y grŵp ieuenctid a'r cartref gofal lleol. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Datblygu a gwerthuso prosiectau grŵp o awduron 1, a recriwtio grŵp o awduron 2, mewn partneriaeth â WWF. | Cwblhawyd y gwaith o werthuso prosiect y grŵp cyntaf o awduron yn Chwarter 1, a dechreuodd staff ddatblygu'r broses ar gyfer cyhoeddi galwad am yr ail grŵp o awduron drwy gwrdd â Ffiwsar i rannu gwersi a oedd wedi'u dysgu wrth gyhoeddi galwadau'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn Chwarter 1. Yn Chwarter 2, cafodd staff gyfarfod â Phartneriaeth Ogwen ym Methesda i drafod partneriaeth bosibl ac ardal benodol ar gyfer yr ail grŵp. Roedd Llenyddiaeth Cymru yn llwyddiannus wrth wneud cais i Gyngor Gwynedd ar gyfer Llên mewn Lle. Fis Hydref, bydd staff yn cwrdd â rheolwr prosiect WWF yn Sir Benfro er mwyn canfod meysydd diddordeb posibl. | |
| Canolbwyntio ar greu prosiectau lleol a datblygu cysylltiadau â'r gronfa Ysbrydoli Cymunedau, yn ogystal â chyhoeddi canllawiau am gynnal gweithgareddau llenyddol cynaliadwy. | Yn mynd rhagddo: Roedd Chwarter 2 yn gyfnod gwych i gynnal gweithgareddau cyfranogol oherwydd gwyliau'r ysgol. Yn y chwarter hwn, er enghraifft, cefnogodd y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau gwrs ysgrifennu creadigol dros yr haf i ferched o liw rhwng 14 ac 17 oed, a hwnnw'n cael ei gynnal gan Made in Roath; gweithdai llenyddiaeth Gymraeg i blant yn ardal Abertawe; a gŵyl fis Awst i deuluoedd o'r enw Rhwng y Coed, a ddenodd dros 2,000 o bobl.<br>Yn Chwarter 2, symleiddiwyd ffurflen gais y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau, gan gynnal ymgyrch yn y cyfryngau i roi sylw i'r cynllun.<br>Mae Iola Ynyr a Siôn Tomos Owen wrthi'n datblygu canllawiau ar gyfer cynnal gweithgareddau llenyddol cynaliadwy, a fydd yn cael eu cyhoeddi yn Chwarter 3/4. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

## Nod: Iechyd a Llesiant: Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| **Ehangu a datblygu ein partneriaethau** cryf yn y maes iechyd a llesiant, gan gynnwys gyda Choleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru, y Reading Agency, byrddau iechyd lleol, a Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru. | Mae staff Llenyddiaeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg i drafod y posibilrwydd o greu gofod ar gyfer goruchwyliaeth greadigol a fydd yn hybu llesiant artistiaid. Mae aelod o staff Llenyddiaeth Cymru wedi ymuno â fforwm Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru, sy'n cefnogi artistiaid sy'n gweithio yn y maes llesiant. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff |
| Darparu'r prosiect peilot, **Sgwennu'n Well,** gan feithrin 6 hwylusydd o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli a'u helpu i ddatblygu eu hymarfer mewn prosiectau partneriaeth Iechyd a Llesiant. | Ar ôl galwad agored, mae chwe hwylusydd o gefndiroedd sy'n cael eu tangynrychioli wedi cael eu dewis ar gyfer y rhaglen Sgwennu'n Well. Dros y chwe mis nesaf, bydd yr hwyluswyr yn mynychu sesiynau hyfforddi misol ar-lein, ynghyd â chwrs preswyl yn Nhŷ Newydd i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth ym maes Iechyd a Llesiant. Byddan nhw hefyd yn treulio amser yn datblygu prosiect o'u dewis nhw, ac rydyn ni'n bwriadu ariannu'r prosiectau hynny yn ystod ail hanner y rhaglen. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb** : Dyfnhau ein perthynas ag artistiaid, cyfranogwyr a chynulleidfaoedd.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Darparu trydedd rownd Cynrychioli Cymru, a recriwtio i'r bedwaredd rownd, gan fuddsoddi'n ddwys mewn 28 o awduron, gyda phob un yn cynrychioli cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd yn Niwylliant Llenyddol Cymru | Yn mynd rhagddo. Mae 14 o awduron yn cael cymorth dwys yn nhrydydd rownd y cynllun, gyda nifer yn dechrau cael eu mentora yn Chwarter 2. Mae'r staff yn parhau i raglennu gweithgareddau ar gyfer gweddill y flwyddyn, ar ôl ymgynghori â'r awduron. Fis Medi, cyhoeddwyd enwau'r mentoriaid<br>Yn Chwarter 2, agorodd yr alwad ar gyfer Cynrychioli Cymru 4, gan wahodd ceisiadau gan awduron sy'n cael eu tangynrychioli ac sy'n datblygu gwaith newydd ar gyfer oedolion. Mae dros 125 o geisiadau wedi dod i law. Bydd cadeirydd y panel yn cwblhau'r sifft cychwynnol yn Chwarter 3, gyda gweddill y panel yn cwblhau eu hasesiadau yn Chwarter 4. Bydd y panel yn cwrdd yn rhithwir yn Chwarter 4 er mwyn penderfynu pwy fydd yr 14 awdur llwyddiannus. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Drwy Cynrychioli Cymru, ymwneud â thua 300 o unigolion fel rhan o'r rhaglen ehangach. | Yn mynd rhagddo: Hyd yma, mae 113 o unigolion wedi ymwneud â'r tair sesiwn gyhoeddus, gydag wyth sesiwn arall wedi'u cynllunio tan fis Mawrth 2024. | |
| Monitro esblygiad y rhaglen a'i heffaith hirdymor, gan gynnwys ymwneud â'r grwpiau presennol o awduron. | Yn mynd rhagddo: yn Chwarter 1, cwblhawyd y gwaith mentora ôl-ofal gyda grŵp cyntaf o awduron Cynrychioli Cymru, gyda'r awduron a'r mentoriaid yn awgrymu bod rhaglen Cynrychioli Cymru wedi arwain at greu perthnasau cadarnhaol ac effeithiol. Bu pump aelod o'r ail grŵp o awduron yn Niwrnod Diwydiant Awduron wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli, a hynny'n rhad ac am ddim, tra bo pob un o'r 14 awdur wedi'u gwahodd i benwythnos preswyl yn Nhŷ Newydd fis Tachwedd 2023. | |
| Marchnata o leiaf 1 darn o farchnata drwy gyfrwng BSL ar gyfer prosiect cyn diwedd y flwyddyn, ac asesu i ganfod effaith hynny | Wedi'i gyflawni. Yn Chwarter 2, crëwyd taflen BSL ddwyieithog ar gyfer galwad Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad, mewn partneriaeth â Celfyddydau Anabledd Cymru. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Diwylliant Llenyddol Cymru:** Sicrhau ymgysylltiad ehangach, gwell hygyrchedd a rhagor o effaith ar gyfer gweithgareddau ysgrifennu creadigol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Gweithio gyda'n cydweithwyr yn y Cwmnïau Cenedlaethol i ddylunio a darparu rhaglen newydd o'r enw **Newid Diwylliant,** a fydd yn cynnwys hyfforddiant ac ymchwil i sicrhau gwell amrywiaeth ymhlith arweinwyr. | Cafodd y rhaglen Newid Diwylliant gyllid ar gyfer 23-25 gan Lywodraeth Cymru. Yn Chwarter 2, recriwtiwyd rheolwr i'r rhaglen, ynghyd ag **un ar ddeg** o unigolion o bob rhan o'r sector celfyddydau i greu grŵp o Ffrindiau Beirniadol. Bydd aelod o staff Llenyddiaeth Cymru hefyd yn ffrind beirniadol gan gynnig cymorth nad yw'n ariannol. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Cynnull partneriaid llenyddol, fel Cyngor Llyfrau Cymru a Cyhoeddi Cymru, i ddatblygu cynllun ar gyfer prosiect partneriaeth hirdymor a fydd yn canfod ac yn hyfforddi mwy o awduron Cymraeg sy'n cael eu tangynrychioli gyda'r nod o gyhoeddi llyfrau i blant a phobl ifanc | Heb ei gyflawni. Serch hynny, mae cyfarfodydd wedi'u cynnal â'r partneriaid hyn, ac mae cynlluniau i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru eleni. Bydd tangynrychiolaeth a chydweithio wrth droi ysgrifenwyr yn awduron cyhoeddedig yn ganolog i'r ddogfen hon. | |
| Dadansoddi'r canfyddiadau perthnasol o'r Arolwg Rhanddeiliaid, cyflwyno'r canfyddiadau i staff, a chynnal cyfarfod i drafod y camau y mae angen eu cymryd | Wedi'i gwblhau: Cyflwynwyd canfyddiadau'r arolwg rhanddeiliaid i staff ym mis Mehefin, a thrafodwyd syniadau wedyn mewn cyfarfod creadigol. Trafodwyd y camau gweithredu mewn cyfarfod effaith, a bydd y gwaith datblygu'n parhau ar ôl llunio'r Adroddiad Blynyddol (22/23). | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

**Nod: Y Gymraeg:** Ymrwymo i ddatblygu ac achub ar y cyfleoedd y mae creadigrwydd drwy gyfrwng y Gymraeg yn eu cynnig

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Penodi Bardd Plant Cymru newydd a fydd yn ymrwymo o leiaf 25 o ddiwrnodau'r flwyddyn (13 pro rata yn 23/24) i ddarparu gweithgareddau creadigol i blant Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg. | Mae Nia Morais, Bardd Plant newydd Cymru, eisoes wedi ymrwymo deuddydd i ddarparu gweithgareddau creadigol drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gyrraedd cyfanswm o 135 o blant a phobl ifanc. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau a chofnodion staff. |
| Sicrhau bod o leiaf 10 o awduron Cymraeg yn cael cyfleoedd datblygu dwys, hirdymor yn 23/24 (e.e. drwy Cynrychioli Cymru neu Sgwennu'n Well) | Mae grŵp o awduron Sgwennu'n Well yn cynnwys dau awdur Cymraeg a fydd yn cael cyfleoedd datblygu dwys, hirdymor drwy'r rhaglen yn ail hanner y flwyddyn. At hynny, mae pedwar o awduron Cymraeg sy'n rhan o grŵp Cynrychioli Cymru wedi parhau i gael cyfleoedd datblygu drwy'r rhaglen (gan gynnwys 2 sesiwn ddwyieithog yn Chwarter 2). | |
| Trefnu cwrs dysgu Cymraeg penodol i ddechreuwyr ar gyfer awduron sy'n gweithio'n ddwys gyda ni ar amrywiaeth o brosiectau. | Mae cyllid wedi'i roi gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gyfer y cwrs, a fydd yn cael ei gynnal yn Chwarter 3. Bydd yr awduron sy'n rhan o gynllun Cynrychioli Cymru a'r Cwrs Strategol i egin awduron yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y cwrs. | |
| Lansio galwad am raglen ddatblygu newydd sbon, Pencerdd, i roi cyfleoedd datblygu dwys i 6 bardd newydd yng nghrefft y gynghanedd, mewn partneriaeth â Barddas. | Mae disgwyl cyhoeddi'r alwad ar gyfer Pencerdd ym mis Tachwedd, a bydd y prosiect yn cael ei gynnal yn 2024-25. Mae'r bartneriaeth â Barddas wedi'i chadarnhau. Byddan nhw'n darparu cymorth gwerthfawr nad yw'n ariannol, ond yn anffodus, does dim modd iddyn nhw gyfrannu'n ariannol at y prosiect. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

Mesur Gweithrediadol: Tŷ Newydd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Cynnal o leiaf 3 encil preswyl yn rhad ac am ddim yn Nhŷ Newydd, neu'n rhithwir o dan faner Tŷ Newydd, i grwpiau o awduron sy'n cael eu tangynrychioli, gan gynnig gweithdai i ddatblygu eu crefft a'u gyrfaoedd. Ymhlith y grwpiau fydd awduron anabl, awduron LHDTC+, awduron Cymraeg, awduron benywaidd o liw, a rhagor. | Mae pump o gyrsiau/encilion rhad ac am ddim wedi'u trefnu yn 2023-24, gan gynnwys:<br>**Nodyn ar Natur** (Medi 2023) i awduron benywaidd o liw<br>**Llyfrau Lliwgar** (Tachwedd 2023) i awduron LHDTC+ Cymraeg<br>**Ailddyfeisio'r Prif Gymeriad** (Tymor yr Hydref 2023) Cwrs digidol i awduron anabl<br>**Cwrs Olwen** (Rhagfyr 2023) i awduron Cymraeg o dan 25 oed<br>**Kathod** (Mawrth 2024) i artistiaid Cymraeg sy'n perfformio barddoniaeth ac sy'n arddel hunaniaeth rhywedd ar y cyrion | Cofnodion Tŷ Newydd |
| Cynnig o leiaf 10 ysgoloriaeth i awduron sy'n cael eu tangynrychioli i fynd ar gwrs, neu i gael encil, yn Nhŷ Newydd/Nant | Hyd yma, rydyn ni wedi cynnig **wyth** ysgoloriaeth i awduron sy'n cael eu tangynrychioli i fynd ar gwrs neu encil yn Nhŷ Newydd. | |
| Trefnu encil penwythnos LHDTCA+ Cymraeg yn Nhŷ Newydd | Ar y gweill, gyda'r encil i'w gynnal yn Chwarter 3. | |
| Lansio galwad am gyfranogwyr Cymraeg sy'n arddel rhywedd sydd ar y cyrion i gymryd rhan mewn cwrs yn Nhŷ Newydd i ddatblygu sgiliau perfformio barddoniaeth | Ar y gweill, gyda disgwyl cynnal cwrs preswyl wythnos o hyd fis Mawrth 2024. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 23/24

## Mesurau sefydliadol: Adnoddau Dynol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Yr holl staff ac aelodau'r bwrdd i gael hyfforddiant ym maes gwrth-hiliaeth ac ablaeth. | I'w drefnu yn Chwarteri 3/4. Darparwyd sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn Chwarter 1 i staff ac Ymddiriedolwyr, ynghyd â gwneud gwaith i roi trosolwg o faterion llywodraethu i'r Uwch Dîm Arwain ac Ymddiriedolwyr. | Cofnodion Adnoddau Dynol |
| Cefnogi o leiaf 2 aelod o staff nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg (neu sy'n ddysgwyr newydd) ac sydd heb ymweld â'r Eisteddfod o'r blaen i fynychu, drwy eu hebrwng a hwyluso'u hymweliad | Ymwelodd dau aelod o staff sy'n dysgu'r Gymraeg ag Eisteddfod yr Urdd yn Chwarter 1 i ddarparu gweithgareddau, gyda chymorth cydweithwyr.<br>Ymwelodd dau aelod o staff sy'n dysgu'r Gymraeg â'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2023, sef Claire Furlong am yr ail waith ac Emily Dafydd-Drew am y tro cyntaf. Cawson nhw gymorth Mared Roberts a Miriam Sautin i fynd i ddigwyddiadau a chwrdd ag artistiaid a rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector, yn ogystal â mynd i noson gomedi i ddysgwyr Cymraeg, lle roedden nhw'n deall y jôcs (neu'r rhan fwyaf ohonyn nhw, beth bynnag). | |
| Darparu hanner diwrnod o hyfforddiant mewnol i staff sy'n rhugl eu Cymraeg i ymarfer a datblygu naws llais Llenyddiaeth Cymru wrth lunio negeseuon cyfathrebu yn Gymraeg. | Wedi'i gynllunio yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn Chwarteri 3/4. | |

# Codi arian

Ers i Catrin ymuno ddechrau mis Medi, mae hi wedi bod yn dysgu am y sefydliad ac am ei raglenni a'i brosiectau, gan feithrin dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r blaenoriaethau i godi arian. Mae gennyn ni Gynllun Codi Arian manwl, a thargedau clir, ond mae angen diweddaru ein prosesau a'n systemau mewnol cyn bwrw iddi. Isod y mae trosolwg o gynnydd Catrin hyd yma:

| | |
|---|---|
| Ymddiriedolaethau a Sefydliadau | **Datblygu cronfa ddata o gyllidwyr:** gyda gwybodaeth am gyllidwyr posibl, gan gynnwys y meini prawf cymhwysedd, dyddiadau cau, a hanes cyllido er mwyn creu cynllun gweithredu ar gyfer cyflwyno ceisiadau.<br>**Cyllid Refeniw:** datblygu ceisiadau ar gyfer prosiectau, e.e. Llên Mewn Lle, gwaith y Beirdd Plant a Bardd Cenedlaethol Cymru, rhaglenni datblygu awduron Tŷ Newydd;<br>**Cyllid Craidd:** targedu cyllidwyr mwy o faint a chyllid aml-flwyddyn, e.e. gan y Foyle Foundation;<br>**Cyllid Cyfalaf:** yn canolbwyntio ar Dŷ Newydd, ceir nifer o gyllidwyr sy'n ariannu gwaith cyfalaf yn benodol. |
| Rhoddion gan unigolion | **Rhodd Cymorth:** diweddaru ein cyfrif gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi er mwyn i ni allu sicrhau'r gwerth mwyaf o roddion gan unigolion (gan gynnwys rhoddion a gafodd eu rhoi hyd at bedair blynedd yn ôl);<br>**Rhoddion ar-lein:** ychwanegu'r gallu i roi ar-lein drwy'r wefan gan ddefnyddio platfform CAF Donate. Dyma'r opsiwn gorau o ran y gost, yr edrychiad, a'r hwylustod – codir 3% am bob trafodiad heb unrhyw ffioedd cychwynnol na misol, ac maen nhw hefyd yn prosesu'r hawliadau Rhodd Cymorth. Maes o law, os byddwn ni'n dechrau defnyddio CRM, mae'n debygol y bydd y system newydd yn cynnwys y gallu i wneud rhoddion/taliadau ar-lein, ond mae CAF Donate yn ein galluogi i fwrw iddi nawr mewn ffordd rad a chyflym.<br>**Gofyn i bobl:** bydd tudalen 'Cefnogwch Ni' hefyd yn cael ei hychwanegu ar-lein, a fydd yn arwain i'r dudalen rhoddion.<br>**Tŷ Newydd:** Ychwanegu tudalen at y ffolderi ym mhob ystafell wely i wahodd pobl i'n cefnogi, naill ai drwy gyflwyno rhodd ar ffurflen bapur/datgan rhodd cymorth, neu ar-lein. |
| Cefnogaeth gorfforaethol | Gwobr Llyfr y Flwyddyn yw'r flaenoriaeth bennaf, ac mae'r tîm yn cydweithio i ganfod rhestr o gefnogwyr addas i'w targedu. |
| Cysylltiadau, syniadau a rhwydweithiau'r ymddiriedolwyr | Mae codi arian yn effeithiol yn galw am ymdrech gan yr holl dîm, ac mae llawer o hyn yn ymwneud â pherthnasau, datblygu rhwydweithiau a chysylltiadau, a rhannu syniadau. Bydd Catrin yn cysylltu â'r holl ymddiriedolwyr i glywed eu barn ac i gael sgwrs (yn ddigidol neu wyneb yn wyneb) dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf. |

# Targedau Gweithredol

## Uchafbwyntiau Chwarter 2

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Mae 100% o'r staff wedi cymryd rhan mewn o leiaf dair sesiwn hyfforddiant i'r holl dîm bob blwyddyn. | Roedd yr holl staff yn bresennol yn y Diwrnodau Cynllunio Creadigol yn Nhŷ Newydd fis Medi, a oedd yn cynnwys tair sesiwn i drafod ein strategaeth bresennol. Mae hyn yn dilyn sesiynau hyfforddi i'r holl dîm yn Chwarter 1 ym meysydd cyfathrebu creadigol, ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, a llywodraethu. | Cofnodion Adnoddau Dynol |
| Cynnig hyd at bedwar diwrnod o wyliau gyda thâl bob blwyddyn i'r staff wirfoddoli. | Mae un aelod o'r staff wedi achub ar y cyfle i gael hyd at bedwar diwrnod o wyliau gyda thâl i wirfoddoli, ac mae'n helpu i gynnal clwb ar ôl ysgol yn ysgol gynradd Llanystumdwy bob yn ail wythnos. A hithau'n ysgol fechan, leol, ni fyddai ganddi gapasiti i gynnal clybiau ar ôl ysgol heb help gwirfoddolwyr. Bydd hyn o fudd i'r gymuned leol, i les yr aelod o staff, ac i berthynas Llenyddiaeth Cymru ag ardal leol Tŷ Newydd. | Adroddiad y Swyddogion Amgylcheddol |
| Sicrhau sylw gan o leiaf dri phlatfform Haen 1 yn y wasg a'r cyfryngau ac o leiaf chwe phlatfform Haen 2 | Rydyn ni wedi parhau i gael sylw cadarnhaol yn y cyfryngau, yn enwedig o ran y beirdd cenedlaethol. Yn Chwarter 2, roedd hyn yn cynnwys erthyglau ac ymddangos ar gloriau cylchgrawn Week End y Western Mail a Buzz Magazine, yn ogystal â chyfweliadau ar BBC Radio Cymru ac S4C. Yn ystod y cyfnod hwn, rydyn ni wedi cael sylw yn y wasg a'r cyfryngau gan ddau blatfform Haen 1, 19 platfform Haen 2, ac 11 platfform Haen 3. O gyfuno hyn â'r sylw a gafwyd yn Chwarter 1, mae'n golygu ein bod ni eisoes wedi rhagori ar y targed ar gyfer y flwyddyn. | Monitro'r Cyfryngau |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Targedau Gweithredol

## Targedau a fethwyd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2024 | Cynnydd o flwyddyn hyd yma | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Cynnig o leiaf bump o sesiynau hyfforddiant i'r holl staff wedi'u seilio ar y Pecyn Cymorth Cyfathrebu. | Ar ôl sesiwn i gyflwyno ein Huwchgynllun Cyfathrebu fis Ebrill, mae'r cynnydd tuag at y targed hwn wedi llithro. Mae hyn oherwydd anhawster i ganfod pwnc newydd a pherthnasol a chapasiti ymysg y staff i baratoi'r sesiynau hyfforddi. Serch hynny, mae sesiwn wedi'i threfnu ar gyfer mis Hydref a fydd yn canolbwyntio ar Fapio Rhanddeiliaid. | Tystiolaeth o ddyddiaduron |
| Datblygu cynllun gweithredu manwl ar gyfer meithrin cysylltiadau â'r sector addysg ledled Cymru | Yn hytrach na chreu cynllun gweithredu, rydyn ni wedi penderfynu datblygu prosiect newydd ar gyfer Sgwadiau Sgwennu / Ffrindiau'r Bardd Plant. Mae'r gwaith cynllunio wedi dechrau ar gyfer y prosiect newydd hwn, gan edrych ar sut y bydd yn helpu Llenyddiaeth Cymru i feithrin cysylltiadau âr sector addysg ledled Cymru. Bydd Leusa'n gwneud y gwaith o ddatblygu'r strategaeth yn y tymor hir pan fydd hi'n dychwelyd o'i chyfnod mamolaeth. | Dogfen dystiolaeth |
| Pedwar o astudiaethau achos yn cael eu rhannu bob blwyddyn. | Does dim astudiaethau achos wedi'u rhannu eleni hyd yma, sy'n golygu ein bod ar ei hôl hi wrth gyflawni'r targed hwn. Serch hynny, mae un astudiaeth achos ym maes iechyd a llesiant eisoes wedi'i ddrafftio, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar ymgyrch ymysg plant a phobl ifanc i'w rannu yn ystod yr hydref, a fydd yn cynnwys astudiaeth achos. | Cynnyrch gwaith cyfathrebu |

# Uchafbwyntiau a diweddariadau Polisi

## Cynnydd chwarter 2

- Y chwarter hwn, cyrhaeddwyd ein targed ar gyfer trefnu cwrs yn Nhŷ Newydd sy'n rhoi sylw i'r Argyfwng Hinsawdd, sef y cwrs strategol Nodyn ar Natur a gynhaliwyd rhwng 25 a 29 Medi. Ar ôl galwad agored, bu wyth o unigolion o liw o Gymru, a'r rheini'n arddel hunaniaeth menywod neu rywedd ar y cyrion, yn rhan o'r cwrs rhad ac am ddim hwn a oedd yn canolbwyntio ar ysgrifennu am fyd natur a pherthynas yr awduron â hwnnw.
- Darparwyd y gyntaf mewn cyfres reolaidd o sesiynau am y Cynllun Cynaliadwyedd yn ystod y cyfarfod staff fis Awst. Roedd y sesiwn yn canolbwyntio ar deithio a thrafnidiaeth, gan ddiweddaru'r staff am ein cynnydd wrth leihau ein heffaith, a'u hatgoffa am ein targedau. Helpodd y sesiwn hefyd i ganfod y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymudo drwy deithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus – er enghraifft, diogelwch wrth deithio i ddigwyddiadau ar drafnidiaeth gyhoeddus gyda'r nos a phroblemau gyda thrafnidiaeth gyhoeddus (toriadau i wasanaethau bysus, streiciau trên). Bydd hyn hefyd yn helpu i ganfod atebion i leihau ein heffaith amgylcheddol wrth ailddrafftio'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd ar gyfer 2024 ymlaen.

## Chwarter 2 Targedau a fethwyd

- Rydyn ni wedi methu ein targed ar gyfer cynnal dim ond un cyfarfod bwrdd wyneb yn wyneb y flwyddyn, gyda'r ymddiriedolwyr yn cytuno i gynnal dau gyfarfod wyneb yn wyneb y flwyddyn (un yn Nhŷ Newydd ac un yng Nghaerdydd). Bydd modd i'r ymddiriedolwyr ymuno â'r cyfarfodydd hyn ar-lein o hyd os ydyn nhw'n dymuno hynny, ac rydyn ni'n chwilio am opsiynau ar gyfer darparu cyfieithu ar y pryd wyneb yn wyneb ac ar-lein i hwyluso hyn.
- Rydyn ni eisoes wedi argraffu mwy na'n targed, sef sicrhau bod y staff yn argraffu llai na 5,000 o dudalennau bob blwyddyn. Yn ystod y flwyddyn hyd yma, rydyn ni wedi argraffu cyfanswm o 8,499 o dudalennau (6,777 yn Nhŷ Newydd; 1,722 yng Nghaerdydd) – er bod hyn yn cynnwys tudalennau sydd wedi'u hargraffu gan westeion yn Nhŷ Newydd. Byddwn ni'n edrych ar yr opsiynau i greu ffigurau ar wahân sy'n dangos faint y mae gwesteion yn ei argraffu, er mwyn cael data cywirach, a byddwn ni'n atgoffa'r staff mewn cyfarfod staff cyn hir ynghylch yr angen i argraffu llai.
- Er ein bod yn parhau i osgoi argraffu deunydd hyrwyddo ar raddfa fawr, hyd yma eleni rydyn ni wedi argraffu cardiau post ar gyfer Bardd Plant Cymru a'r Children's Laureate Wales, ynghyd â thaflenni i'w dosbarthu yng Ngŵyl y Gelli a'r Eisteddfod.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gwersi i'w Dysgu: Gweithgaredd a Gweithredol

| Gweithgaredd | Gwersi i'w Dysgu: 1 Gorffennaf – 30 Medi 2023 | Argymhellion/ Gweithrediadau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| Cynrychioli Cymru – Iaith Gymraeg | Roedd pedwaredd rownd ein rhaglen datblygiad proffesiynol yn gwahodd ceisiadau gan awduron sy'n ysgrifennu ar gyfer oedolion. Roedd ein meini prawf cymhwystra yn fwy agored fyth, gan annog awduron i hunan-ddiffinio pam eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd ym myd llenyddol Cymru. Derbyniwyd bron i 150 o geisiadau, ond dim ond 6 trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn wedi bod yn broblem ers sawl blwyddyn, er ein bod yn adeiladu ar ein ymdrechion marchnata i geisio ehangu nifer yr ymgeiswyr Cymraeg eu hiaith yn flynyddol.<br><br>Credwn fod nifer o resymau am hyn ond gwyddom na allwn barhau i gynnig union yr un rhaglen na gwneud yr un ymdrechion marchnata y flwyddyn nesaf a disgwyl canlyniadau gwahanol. | Yn y gwanwyn byddwn yn edrych yn fanwl ar sut y gallai Cynrychioli Cymru wasanaethu siaradwyr Cymraeg sy'n cael eu tangynrychioli yn well drwy ymgynghori â'r gynulleidfa darged, ac addasu'r rhaglen. |
| Galwad agored: Cymhwystra | Drwy alwadau diweddar, fel Cynrychioli Cymru a'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau rydym wedi sylweddoli bod angen diweddaru ein ffurflenni cais i sicrhau fod llai o geisiadau anghymwys yn dod i law, gan ein bod wedi cael dwsinau o ymgeiswyr anghymwys yn llwyddo i lithro drwy system unai gan nad ydynt yn ateb cwestiynau ynghylch cymhwysedd, neu yn eu camddeall. | Bydd ein prif ffurflenni cais yn cael eu hadolygu dros y misoedd nesaf, gan greu adran cymhwyster fwy cadarn ar y dechrau na fydd yn gadael i chi barhau os ydych yn anghymwys. Mae systemau tebyg yn bodoli gyda'r rhan fwyaf o geisiadau am gyllid ar-lein, felly byddwn yn dod o hyd i rai enghreifftiau o arfer gorau i helpu. |
| Adolygiad Buddsoddiad | Yn ogystal â'n canlyniad ein hunain, rydym wedi bod yn rhan o drafodaethau ehangach ar draws y sector gyda sefydliadau sydd wedi cael canlyniadau gwrthgyferbyniol – rhai wedi ennill cyllid, a rhai wedi cael toriad llwyr. Rydym yn siomedig gyda'r diffyg cyllid yn gyffredinol ar gyfer llenyddiaeth (dim ond ni a People Speak Up sydd wedi derbyn cyllid). | Dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, byddwn yn ceisio gweithio gyda phartneriaid a sefydliadau llenyddiaeth eraill i ddatblygu eu ffyrdd o weithio gyda Cyngor Celfyddydau ac i eirioli dros bwysigrwydd llenyddiaeth yng Nghymru gyda rhanddeiliaid allweddol y llywodraeth a CCC. |